
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Datganiad y Polisi Amgylcheddol

Fersiwn 3.4

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad 3
2.0 Strategaeth a Monitro Cynnydd 3
3.0 Nodau'r Polisi 3
4.0 Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill 4
5.0 Rheoli Fersiynau'r Ddogfen 4

1.0 Cyflwyniad

Mae Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, sy'n cynnwys y Brifysgol, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, yn cydnabod bod materion yn ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol yn sylfaenol i iechyd a llesiant pawb sy'n rhan o'n gweithrediadau a'n cymunedau ehangach yn y dyfodol, ac i'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd byd-eang.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i'r canlynol:

- ymgorffori cynaliadwyedd ar draws ein campysau, ein cwricwlwm a'n diwylliant
- darparu amgylchedd ysgogol, blaengar a chynaliadwy ar gyfer dysgu, gan gynnwys
- ystyriaeth lawn i effeithiau a chyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

2.0 Strategaeth a Monitro Cynnydd

Mae Cynllun Strategol PCYDDS 2025-2030 yn adnabod cynaliadwyedd amgylcheddol fel un o'r prif ffactorau sy'n galluogi llwyddiant sefydliadol, gan sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i fod yn gyfrifol, gwydn ac yn barod ar gyfer y dyfodol wrth ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol hon yn darparu'r fframwaith y mae'r ymrwymiad hwnnw yn cael ei gyflawni'n ymarferol trwyddo.

Mae'r Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol hon yn cyflawni Hwylusydd Cynaliadwyedd Amgylcheddol Cynllun Strategol PCYDDS 2025-2030 yn uniongyrchol, gan alinio uchelgais sefydliadol gyda chyflawniad gweithredol a disgwyliadau'r sector. Mae'r strategaeth yn trosi ymrwymiadau lleol a chenedlaethol i effaith fesuradwy drwy Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, gan sicrhau bod camau gweithredu lleol yn cyfrannu'n ystyrlon i ganlyniadau cynaliadwyedd byd-eang.

Mae Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030 yn gosod chwe Blaenoriaeth Strategol a fydd yn ceisio ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws llwybrau addysgu pellach ac uwch er mwyn gwella profiad, cynaliadwyedd a dilyniant y dysgwr.

1. Lleihau Carbon
2. Addysg a Chyflogadwyedd
3. Ystâd Gynaliadwy
4. Ymchwil ac Arloesi
5. Arweinyddiaeth, Ymgysylltiad a Diwylliant
6. Monitro ac Adrodd

3.0 Nodau'r Polisi

Nod y Polisi yw gweithredu'n rhagweithiol mewn ffyrdd sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn annog gweithredu cadarnhaol drwy addysgu, ymchwil a gweithgareddau eraill y Brifysgol er mwyn:

- lleihau'r defnydd o ynni a'r allyriadau cysylltiedig sy'n cyfateb i garbon ar draws y Grŵp
- lleihau'r defnydd o ddŵr
- cynnal ein hymrwymiad i ddiogelu amgylcheddau, gan gynnwys atal llygredd, lleihau ffynonellau rheoledig o allyriadau sy'n ffoi, a chan gydymffurfio â phob deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol neu ag arfer gorau'r sector
- meithrin partneriaethau i rannu profiad a gwybodaeth am gynaliadwyedd

- gwella effeithlonrwydd adnoddau gan ddefnyddio'r hierarchaeth wastraff, gan gynnwys caffael yr hyn sy'n angenrheidiol yn unig, ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint â phosibl ac osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi
- parhau i ddiogelu a rheoli ein hadeiladau treftadaeth
- lleihau allyriadau carbon cwmpas tri cadwynau cyflenwi
- dynodi cyfleoedd i leihau effaith teithiau busnes, cymudo a milltiroedd anfon nwyddau, er enghraifft drwy annog a hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a rhannu ceir ochr yn ochr â mentrau eraill
- mabwysiadu safonau amgylcheddol uchel ar gyfer cynllunio datblygu ein campysau a phrosiectau adeiladu ac adnewyddu
- gwella perfformiad amgylcheddol y Grŵp yn barhaus fel rhan o un System Reoli Amgylcheddol ardystiedig.

4.0 Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

- Cynllun Strategol PCYDDS 2025-2030
- Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030
- Cynllun Rheoli Carbon 2025-2030
- Cynllun Gweithredu Ymgysylltu A Chynaliadwyedd 2025-2030
- Cynllun Adeiladu Ac Adnewyddu Cynaliadwy 2025-2030
- Cynllun Rheoli Ynni 2025-2030
- Cynllun Teithio Cynaliadwy 2025-2030
- Cyllun Rheoli Gwastraff 2025-2030
- Cyllun Rheoli Dŵr 2025-2030
- Cynllun Bwyd Cynaliadwy 2025-2030
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2025-2030
- Polisi Gyrfaoedd Moesegol 2025-2030
- Polisi Buddsoddi Moesegol 2025-2030

5.0 Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

Rhif y Fersiwn:	Rheswm dros newid:	Awdur:	Dyddiad y newid:
1	Cymeradwyo'r Ddogfen		27.06.17
2	Adolygwyd y polisi gyda newidiadau i'r templed	AJ/TY	28.09.18
2	Cymeradwywyd y polisi gan y Dirprwy Is-Ganghellor	GT	28.09.19
2.1	Adolygwyd y polisi gyda newidiadau	CJ/CH/DR	Ion 2020
2.2	Adolygwyd y polisi	RS	Chwefror 2021
3	Adolygwyd y polisi	KW, CSG	Ionawr 2022
3	Cyflwyniad i'r TAW i'w ystyried a'i gymeradwyo		08 Chwefror 2022
3.1	Adolygwyd y Polisi gyda newidiadau	KM	Medi 2023
3.2	Ychwanegu Adolygwyd y Polisi gyda adroddiadau	KM	Hydref 2024

3.3	Polisi wedi'i adolygu a'i ymestyn tan Hydref 27. Polisi wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd	DP	20 Hydref 2025
3.4	Adolygwyd y Polisi a'i ddiweddaru tan Hydref 2027 • Ychwanegwyd cyfeiriad at warchod yr amgylchedd Diweddarwyd y cysylltiadau â pholisïau/ gweithdrefnau eraill	DP	04 Tachwedd 2026

Statws presennol y Polisi:
F1 - Cymeradwywyd gan y Tîm Arwain Gweithredol
F3.4 - Wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: Grŵp PCYDDS

Dyddiad ei gadarnhau:

F1 - 29.08.19;
F3.4 04 Tachwedd 2026

Dyddiad y daw i rym: 01 Tachwedd 2026

Dyddiad nesaf adolygu'r polisi: 31 Hydref 2027